

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 24 Mai 2017

**Presennol:** Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Mr A Jones, Mr W Jones, Dr J Latchford, Ms C Monks, Miss E Riches, Mr D Roberts, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mr D Williams, Mr G W Jones (Ysgrifenyddes).

**Ymddiheur iadau:** Mrs M Lake, Mrs T Hibbert, Yr Athro J Hughes, Dr L Jones, Dr K Mundy, Dr L Murphy, Yr Athro C Tully, Mrs E Parry Williams.

#### 513. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 1 Chwefror 2017.

#### 514. MATERION YN CODI

- a) Cofnod 507, Y Canllawiau Dedfrydu Newydd: Mae Cyngor y Brifysgol a'r Pwyllgor Gweithredu wedi derbyn gwybodaeth am y canllawiau newydd. Bydd Penaethiaid, Deoniaid a Dirprwy Is-gangellorion yn cael gwybodaeth am y canllawiau newydd mewn sesiwn gyfarwyddyd i reolwyr a chaiff ei threfnu gyda hyn.
- b) Cofnod 508(b(iii)), Offer Diogelwch Allweddol: Mae'r Grŵp Gorchwyl Iechyd a Diogelwch yn parhau i gadw golwg i sicrhau bod offer diogelwch allweddol, a brynwyd drwy gronfeydd ymchwil / grantiau yn cael eu cynnal a chadw fel bo'r angen.

#### 515. GRŴP TASG IECHYD A DIOGELWCH

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod dwywaith, a nodwyd y materion canlynol:

Cyfarfod 28 Mawrth 2017

- i. Cofnod 567, Rheoli Risg Ystadau a Chyfleusterau a Chynaliadwyedd Ariannol:
  - Dogfen Cynigion a Risg: Mae wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Ystadau a Chyfleusterau. Bydd y ddogfen yn blaenoriaethu risgiau sy'n deillio o gyfyngiadau adnoddau ac yn cynnwys mesurau lliniaru i reoli risg. Bydd y Grŵp Tasg Ystadau a Chyfleusterau yn ystyried y ddogfen ar ôl iddi gael ei chwblhau.
  - Arolwg Cyflwr (Adeiladau a Gwasanaethau): Argymhellir arolwg cyflwr newydd. Bydd contractwyr presennol Ystadau a Chyfleusterau yn hwylyso'r arolwg, gan fod ganddynt wybodaeth dda am ystâd y brifysgol.
  - Monitro: Dylai gwelliant yn nhrefn arolygu contractwyr Ystadau a Chyfleusterau wella monitro contractwyr ar y safle. Bydd staff yn defnyddio

teclynnau llaw, sy'n gallu bwydo data yn uniongyrchol i PLANON Accelerator i gefnogi'r broses hon.

#### Cyfarfod 16 Mai 2017

- i. Cofnod 569, Adroddiadau Archwilio ac Adolygu: Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol wrth adolygu'r Ddarpariaeth Cymorth Cyntaf, a oedd yn canolbwyntio ar gydymffurfio â'r Rheoliadau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith:
  - Ac eithrio ychydig o adeiladau, mae'r gofyniad cyfreithiol sylfaenol o ran staff sydd wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf wedi ei gyflawni.
  - Gwelwyd bod prinder staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf mewn rhai lleoliadau risg uwch. Mae trefniadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i roi sylw i hyn.
  - Bydd y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn rhoi cyngor cliriach i Golegau/Ysgolion/Adrannau ar nodi eu gofynion Cymorth Cyntaf.
- ii. Cofnod 566(b), Polisi Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau: Mae trafodaethau'n parhau i greu fersiwn terfynol o'r Polisi. Mae hyn yn cynnwys egluro pa swyddi a thasgau a ystyrir yn hollbwysig o ran diogelwch.

Dilynodd trafodaeth lle argymhellwyd bod y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yn ystyried sut i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith y Bwrdd Cynaliadwyedd Ariannol, a'i grwpiau gweithredu. Argymhellwyd hefyd y dylai'r Bwrdd Cynaliadwyedd Ariannol roi ystyriaeth benodol i oblygiadau iechyd a diogelwch eu dull gweithredu er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu rheoli. **Gweithredu: Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch**

Cytunwyd y dylai'r adran Ystadau a Chyfleusterau gyflwyno adroddiad ysgrifenedig, ynglŷn â chyfyngiadau adnoddau a threfniadau lliniarol, i'r Grŵp Tasg. **Gweithredu: Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau**

## **516. SAFONAU POLISI IECHYD A DIOGELWCH**

### **516a Projectau Deifio'r Brifysgol (diwygio)**

Mae'r polisi presennol (a gymeradwywyd 21 Mai 2014), yn disodli'r Nodyn Polisi gwreiddiol: OHSU P11 Deifio yn y Gwaith. Ar ôl ei gymeradwyo, cafwyd trafodaethau pellach gyda staff y Brifysgol sydd â phrofiad helaeth o ddeifio gan arwain at nifer o newidiadau. I grynhoi:

- i. *Enw / Defnydd*: Newidiwyd i '*Projectau Deifio*' ac mae'n awr yn cynnwys '*gweithgareddau deifio sy'n cyfrif tuag at unrhyw gwrs a achredir gan Brifysgol Bangor*'.
- ii. *Snyddogaethau a chyfrifoldebau*: Newidiwyd 'Swyddog Diogelwch Deifio' i swyddogaethau deifio safonol: Swyddog Deifio a Goruchwyliwr Deifio ac sy'n egluro mai'r Brifysgol (Deiliad Dyletswydd) yw'r Contractwr Deifio ac nid unigolyn.
- iii. Mae'n egluro bod rhaid i ddeifwyr gael Archwiliad Meddygol cyfredol a gynhelir gan Archwiliwr Meddygol Deifwyr wedi ei gymeradwyo.

Trafodwyd fersiwn ddiwygiedig y Polisi ac fe'i cymeradwywyd.

**516b Rheoli Sylweddau Sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) (diwygio)**

Mae'n disodli Nodyn Polisi: OHSU P5 Rheoli Sylweddau Peryglus. Mae'r newidiadau'n ymwneud yn bennaf ag adnewyddu gosodiad y polisi, diweddarau cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a chan fod y Polisi yn nawr yn cyfeirio at wastraff peryglus a chlinigol mae'n galluogi dileu'r Polisi Gwastraff Clinigol OHSU P12 oedd ar wahân. Ni roddir unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol ar y Brifysgol, Colegau ac Adrannau na staff a myfyrwyr.

Trafodwyd fersiwn ddiwygiedig y Polisi ac fe'i cymeradwywyd.

**516c Codi a Chario (diwygio)**

Mae'n disodli Nodyn Polisi: OHSU P2 Gweithrediadau Codi a Chario. Mae'r newidiadau'n ymwneud yn bennaf ag adnewyddu gosodiad y polisi, diweddarau cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ac yn awr yn cyfeirio darllenwyr at offer MAC y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a ddatblygwyd i helpu i nodi gweithgareddau codi a chario risg uchel yn y gweithle i sicrhau bod rheoliadau priodol yn eu lle i reoli risg. Ni roddir unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol ar y Brifysgol, Colegau ac Adrannau na staff a myfyrwyr.

Trafodwyd fersiwn ddiwygiedig y Polisi ac fe'i cymeradwywyd.

**516d Dileu polisi**

- i. *OHSU P13: Nodyn Polisi Trais yn y Gwaith:* Nodwyd nad oes unrhyw eitem benodol o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch sy'n berthnasol yn uniongyrchol i 'Drais yn y Gwaith', gyda'r risg o drais yn y gwaith, a chan drais yn y gwaith, wedi ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyffredinol. Gan yr ystyrir fod y wybodaeth a'r dyletswyddau yn cael sylw addas ym Mholisiau, Trefniadau a Gwybodaeth arall y Brifysgol, argymhellwyd dileu'r Nodyn Polisi Trais yn y Gwaith.
- ii. *OHSU P12: Trin, Storio, Cludo a Gwaredu Gwastraff Clinigol yn Ddiogel:* Yn dilyn diweddarau'r Safon Polisi Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) dywedwyd nad oes angen bellach am bolisi penodol ar gyfer gwastraff clinigol. Mae gwybodaeth berthnasol ar gael ar-lein, gyda'r Polisi COSHH diwygiedig yn cynnwys dyletswyddau cynhyrchwyr gwastraff.

Cymeradwywyd y cynnig i ddileu'r ddau bolisi.

**517. ADRODDIADAU ARCHWILIO/ADOLYGU**

Adroddwyd bod y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wedi cyflawni dau archwiliad gan ddefnyddio Pecyn Archwilio newydd Rheolwyr Iechyd a Diogelwch, sy'n cyfeirio at safonau cenedlaethol (*Arwain a Rheoli Iechyd a Diogelwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch UCEA*) ac sydd wedi eu mabwysiadu ym Mholisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol. Mae'r meincnodau ar gyfer elfennau 'thematig' yr archwiliadau wedi eu datblygu gan y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a'u bwriad yw profi effeithiolrwydd system rheoli meysydd pwnc penodol.

**517a Llyfrgelloedd ac Archifau**

Gwelwyd bod trefniadau'r Adran ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch o safon uchel. Yn gyffredinol, enillodd yr Adran 'Ymarfer Gorau' am eu perfformiad diogelwch, sy'n cyfrifo'r holl sgoriau o adran gyffredinol Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch a phob adran

thematig yn yr archwiliad.

Nodwyd nifer fechan o gamau gweithredu, gyda'r pwysicaf yn ymwneud â gwella cadw cofnodion a monitro gweithredoedd hyd at eu cwblhau. Diolchir yn arbennig i Mr Stuart Read, y cydlynnydd iechyd a diogelwch lleol, am ei ymdrechion yn gweithredu a chynnal trefniadau iechyd a diogelwch cadarn ar draws yr Adran.

#### **517b Chwaraeon**

Gwelwyd bod trefniadau'r Adran ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch o safon ragorol, gan ennill 'Ymarfer Gorau' a bron i 100% am eu perfformiad iechyd a diogelwch cyffredinol.

Nodwyd bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yr Adran wedi datblygu tu hwnt i adnabyddiaeth dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r Adran hefyd yn ymdrechu'n barhaus i nodi a gwneud gwelliannau lle bo'n bosibl. Roedd bron pob un o'r ychydig fân gamau gweithredu a nodwyd yn ystod yr archwiliad wedi cael sylw erbyn cwblhau'r archwiliad.

Mae Mr Sam Wallwork, y cydlynnydd Iechyd a Diogelwch, ynghyd â Phennaeth yr Adran, wedi dangos ymrwymiad eithriadol i'r rhaglen iechyd a diogelwch ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cefnogaeth yn ystod y broses archwilio.

**Sylwer:** Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn am y rhesymeg sgorio a'r nodiadau eglurhaol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiadau archwilio. Cytunwyd adolygu'r system sgorio, gan gynnwys eglurhad am y system sgorio mewn adroddiadau yn y dyfodol. **Gweithredu: GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH**

#### **517c Radon**

Adroddwyd y cynhaliwyd yr Adolygiad i gadarnhau bod trefniadau lliniaru a roddwyd yn eu lle yn flaenorol i reoli radon yn parhau'n effeithiol ac i asesu goblygiadau'r gostyngiadau sydd i ddod i'r Lefel Gweithredu radon, fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018. Gweithredir fel a ganlyn o ganlyniad i'r adolygiad:

- i. Mesur radon ym mhob adeilad, a oedd yn flaenorol yn dangos crynodiadau radon yn agos i'r lefel gweithredu newydd.
- ii. Ystadau a Chyfleusterau i ddefnyddio dyfeisiau llaw a PLANON Accelerator i sicrhau y cedwir cofnodion am gynnal a chadw ac archwilio rheoliadau peirianeg radon.
- iii. Er bod mesuriadau radon wedi bod yn is na'r lefel gweithredu newydd arfaethedig, bydd Ystadau a Chyfleusterau yn dod â'r contractwr oedd yn gyfrifol am gynllunio a gosod systemau lliniaru radon yn Ardudwy yn ôl i'r safle er mwyn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â chynllun ac ansawdd y gosodiad.

#### **517d Anafiadau Codi a Chario**

Yn hanesyddol, mae anafiadau '*trin, codi neu gario*' wedi bod yn gyfrifol am ganran sylweddol o anafiadau/digwyddiadau bron â bod yn ddamweiniau a gofnodwyd yn y brifysgol. Wrth gyflwyno data am ddamweiniau/digwyddiadau '*trin a thrafod*' tybir yn aml mai dim ond ddamweiniau/digwyddiadau a achosodd niwed i'r cefn neu anaf tebyg sydd wedi eu cynnwys. Mae'r adolygiad o anafiadau trin a thrafod (2012-2016) wedi dangos tystiolaeth bod y mwyafrif o'r anafiadau i rannau eraill o'r corff (e.e. traed, dwylo, breichiau, coesau)

a'u bod yn fân anafiadau (e.e. briwiau, cleisiau). Gwelwyd hefyd mai dim ond ychydig iawn o ddiwrnodau gwaith sy'n cael eu colli mewn gwirionedd o ganlyniad i anaf trin a thrafod.

Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn ystyried yn awr pa weithredu pellach sy'n briodol i geisio lleihau digwyddiadau sy'n ymwneud ag anafiadau i ddwylo/breichiau.

**Gweithredu: GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH**

**518 EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR**

Dim.

**519. UNRHYW FATER ARALL**

Ni nodwyd unrhyw eitemau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1 Tachwedd 2017 am 2pm yn Ystafell Gynhadledd 3 Y Teras.**